Neuadd Y Sir
Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Caerfyrddin
SA19 6AF

ffon/Facs:
01558 824167

Technical Officer/
Swyddog Technegol:
Mr R.H. Griffiths

The Shire Hall
Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824167

Town Clerk/ Clerc y
Dref: Ms C.A .Paterson
clerk@llandeilo.gov.uk

0169

Cofnodion o Gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Llandeilo, ar ddydd Mawrth 13eg o fis Ebrill 2004 am 7.00pm

Yn bresennol: Cynghorwyr. Cyng. R Bellamy (Cadeirydd), Cyng. K. Day, Cyng. C Jenkins, Cyng. D. A. Jones (Maer)
Eraill: R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol), C. A. Paterson (Clerc y Dref)

6015: Ymddiheuriadau: Ni dderbyniwyd dim.

6016: Cyfrifon am daliadau: Biliau i'w talu;

Dewis Chwefror	£92.67	
Konica	£16.13	Clerc i ofyn am gadarnhad ysgrifenedig o derfyniad y cytundeb hwn.
Gwasanaethau Gwresogi Gorllewin Cymru	£646.25	
Capel Newydd	£20.00	
RTS Iechyd a Diogelwch	£440.63	
Cymdeithas Teithiwyr Rheilffordd Calon Cymru	£ 8.00	
BT	£ 87.00	Clerc i ofyn am fil eitemedig am bob cyfrif yn y dyfodol.
Dewis Mawrth	£76.83	
Rhent swyddfa C. S. C. hyd at 30.04.04	£30.42	
Eglwys Llandeilo	£215.26	

Biliau a dalwyd:

Gefail y Tymbl	£3899.00 (TAW)
HLB AV Archwiliad	£293.75 Ffi'r Archwiliad

Cetris Peiriant argraffu Viking	£54.57
Cynllun Fan Bobby adran 137	£ 50.00
Gefail y Tymbl	£22280.00 Rheiliau
Archaeoleg Cambria	£5700.00

0170

6017: Adroddiad cychwynnol am y Flwyddyn yn Diweddu 2003-2004 Mae'r ffigyrau hyn yn amodol ar newidiadau bychain.

Balansau Cychwynnol;

Gwariant	£ 88442.71
Incwm	£ 75778.05
Gwahaniaeth	**£ 12664.66 O arian wrth gefn.**

Incwm dros ben am y flwyddyn

TAW	£ 1903.73
Grant yr Arolwg Treftadaeth	£ 4800.00
CYFANSWM	**£ 6703.73(yn ol i arian wrth gefn)**

Cyfanswm a ddefnyddiwyd o'r cronfeydd wrth gefn

£ 5960.93

6018: Cyflogau

Telir cyflogau yn fisol,Taliadau a wnaed yn:

Ionawr 2004

C. A. Paterson	£408.57
R. Huw Griffiths	£118.70

Chwefror 2004

C. A. Paterson	£408.57
R. Huw Griffiths	£118.70

Mawrth 2004

C. A. Paterson	£408.53
R. Huw Griffiths	£100.92

Swm a daliwyd i Gyllid y Wlad – Taliad chwarterol hyd at fis Rhagfyr 2003

Treth Incwm	£106.80
Yswiriant Cenedlaethol	£20.02

CYFANSWM TALIAD CYLLID Y WLAD £126.82

Mae'r Clerc wedi llanw'r ffurflen P60 i adran Cyllid y Wlad, am y flwyddyn yn diweddu 31ain o fis Mawrth 2004.

Argymhelliad oddi wrth y pwyllgor i'r cyngor llawn i gynyddu oriau cyflogedig y clerc yr wythnos a'r Clerc i fynd i fyny i bwynt 17 ar raddfa'r cynnydd blynyddol o'r 1 o fis Ebrill. Mae'r Swyddog Technegol eisoes ar bwynt 21.

0170

6019: Roedd y Cyng Bellamy wedi cysylltu â Gwasanaethau Cyswllt y WCVA i holi am eu gwasanaethau talu cyflogai, 'Payconnect'. Mae'r ateb e bost yn datgan:
Bydd ffi cychwynnol, sydd yn un taliad yn unig sef £110.00 i'ch cael chi a'ch cyflogwyr ar y system. Fe fyddai'r gwir gost y mis oddeutu £9.20, mae hyn yn dibynnu ar faint o adroddiadau rydych eu hangen. Fe fyddai'n £6.00 i brosesu unrhyw ddechreuwyr newydd neu ymadawyr ac fe fyddai adroddiadau Diwedd Blwyddyn yn £30.00, y codiadau i gyd yn rhwym wrth TAW.

Argymhellodd y Pwyllgor bod y Clerc yn sefydlu'r Rhestr Talu Cyflogai Cyngor y Dref gan ddefnyddio'r wasanaeth hon. Cynigiwyd gan y Cyng. D. A. Jones eiliwyd gan y Cyng. Day.

6020: Materion ariannol eraill.
Arian i mewn. Derbyniodd y Clerc fantolen banc oddi wrth Gyngor Sir Caerfyrddin. Fe wnaed y taliad Grant am y rheiliau gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar 31ain o fis Mawrth 2004. Beth bynnag, nid oedd y taliad wedi cyrraedd cyfrif banc Cyngor y Dref tan 5ed o fis Ebrill.

Y Clerc i ofyn i Mr H. Towns ym mha flwyddyn ariannol y bydd y taliad hwn yn cael ei gynnwys.

6021:Cyfrifon Banc

Cyfrif y Trysorydd ar 31 Mawrth 2004 (Heb ei gysoni)	
Cariwyd ymlaen	£ 5357.75
Trosglwyddiad o gyfrif Dim Rhybudd	£ 6000.00
Talwyd allan	-£ 9980.15
Llog	£ 3.67
Cyfanswm	£ 1381.22
Yn ôl i gyfrif y Trysorydd 31.3.04.	£ 17500.00
Mantolen ddisgwyliedig diwedd Blwyddyn	£18881.22

Cyfrif y Maer	
Cariwyd ymlaen	£ 943.93
Llog	£ 0.06
Talwyd allan	- £ 100.00
CYFANSWM	**£ 843.99**

Business Money Manager (heb ei gysoni)	£ 44252.72
Trosglwyddiad i Gyfrif Busnes	-£ 6000..00
Drafft a anfonwyd allan	-£ 22280.00
Cost	-£ 10.00
Drafft a anfonwyd allan	-£ 3899.00
Cost	£ 10.00
Llog	£ 223.97
CYFANSWM	**£ 12277.69**

6022: Gwyliau. Roedd y Maer wedi derbyn cais oddi wrth Gadeirydd G yl Llandeilo Mr B. Price am Gyfraniad Cyngor Tref Llandeilo eleni am

£3000.00. Fe gafodd y Maer hefyd gais gan Mrs Julia Jones yngl n â'r yl Cerdd a Blodau. Ystyriodd y Pwyllgor y gyllideb digwyddiadau am y flwyddyn flaenorol a thrafododd anghenion y tair brif yl, G yl Llandeilo Fawr, G yl Cerdd a Blodau a Ceramica

Mae'r Cyngor yn argymell y dyraniad arian i'r gwyliau fel a ganlyn ar gyfer 2004:
G yl Llandeilo - £3000.00
G yl Cerdd a Blodau Llandeilo - £2000.00
Ceramica - £1000.00
Cynigiwyd gan y Cyng. Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Day, argymhelliad wedi ei basio gyda phawb o blaid.

6023: Y Gyllideb am 2004-2005

Y Pwyllgor i ystyried y dyraniad newydd o'r cyllid am y flwyddyn Ariannol 2004-2005 yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Cyllid yn dilyn cyflwyno'r cyfrifion am 2003-2004. Yr aelodau i gyd i roi ystyriaeth i'r gyllideb am 2004-2005.

6024: Grant Balchder Bro – Rhaglen Goedlannu 2002. Roedd y Cyng. Bellamy wedi gofyn i Mr D. Rice i ddarparu cynllun plannu ar gyfer yr ardal gyferbyn â'r bont a goedlannwyd yn 2002.

Y gost o ddarparu'r cynllun plannu hwn yw £150.00. Cynigiwyd bod y Cyngor yn comisiynu'r Cynllun Plannu a bod y gwaith hwn i'w wneud gan Mr Price, cynigiwyd gan y Cyng. Jones, eiliwyd gan y Cyng. Day.

6025: Y Neuadd Sirol . Roedd y Maer wedi cynnal cyfarfod gyda Mr Hughes cyfarwyddwr Cambria. Yn dilyn ymgynghoriad gyda phensaer, roedd Cambria wedi rhoi cynigion at ddyfodol y Neuadd Sirol a fyddai er lles Cyngor y Dref a'r Ymddiriedolaeth Archaeolegol, hwy ill dau. Fe Fyddai hwn yn cynnwys datblygiad llawr isaf o Siambr y Cyngor a swyddfa i Glerc y Dref. Trafodir y rhain yn fwy manwl yn ystod y cyfarfod Cynllunio.

Cynigiodd y Maer bod y Cyngor yn cefnogi Astudiaeth Dichonoldeb gan bensaer, a Cambria i wneud y gwaith hwn, a darparu 50% o'r costau. Eiliwyd yr argymhelliad hwn gan y Cyng. Jenkins.

6026: Gohebiaeth. Adran 137 Derbynesid geisiadau gan Ambiwlans Awyr Cymru ac Ysgol Tregib.

I'w hystyried yng nghyfarfod mis Mehefin o'r Pwyllgor Cyllid.

Roedd y Cyngor wedi derbyn llythyrau o ddiolch oddi wrth fudiadau oedd wedi derbyn grantiau o Adran 137 o gyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Cyllid.

Hysbysiad i'w roi yn yr Hysbysfwrdd yn rhestru'r mudiadau mae'r Cyngor wedi gwneud cyfraniadau iddynt yn y flwyddyn ariannol yn gorffen 31 ain o fis Mawrth 2004 ac yn gofyn am geisiadau am y flwyddyn gyfredol.

Roedd y Cyngor wedi derbyn llawer o sylwadau buddiol ar y Rheiliau yn y Cilgant. Roedd Gefail y Tymbl wedi gofyn am ganiatâd i roi arwydd i fyny yn datgan mai nhw oedd wedi

gwneud a gosod y rheiliau. Cynigiodd y Pwyllgor ganiatâd ar yr amod bod yr hysbysiad hysbysiad yn ddwyieithog.

Archebir plac yn datgan bod y rheiliau yn brosiect gan Gyngor y Dref, a gefnogir gan Gyngor Sir Caerfyrddin a'i ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd, ac i gynnwys logos y mudiadau uchod i gyd. Agoriad y Rheiliau a Chyhoeddusrwydd i'w trafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. Ceisir dyfynbrisiau yngl n ag ailosod y meinciau presennol gyda rhai sy'n cydfynd a'r rheiliau Treftadaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10pm